Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Deall system afon

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol/Grŵp oedran** | **CA2/3** |
| **Amser i gwblhau'r gweithgaredd** | **20 munud** |
| **Lleoliad** | **Tu fewn neu tu allan** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlinellu gêm sy'n atgyfnerthu addysg am y tirffurfiau sydd i'w cael yng ngwahanol rannau o gwrs afon ac yn cysylltu hyn â llifogydd a rheoli dŵr yn gynaliadwy.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru, a chynnig dyfodol gwell i bawb.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

| | |
|---|---|
| | **Daearyddiaeth** |
| **CA2** | **Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau**<br>• Adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol<br>**Ymchwilio**<br>• Arsylwi a gofyn cwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol |
| **CA3** | **Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau**<br>• Adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol<br>**Ymchwilio**<br>• Dadansoddi a gwerthuso syniadau a thystiolaeth, ateb cwestiynau a chyfiawnhau casgliadau |

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Labelu a thrafod gwahanol nodweddion afon.
- Arsylwi a gwneud sylwadau ar sut mae afon yn llifo.
- Egluro'r gwahaniaethau rhwng cyrsiau uchaf, canol ac isaf afon.
- Nodi ble mae llifogydd yn fwyaf tebygol o ddigwydd a pham.

## Offer ac adnoddau

- **Diagram - System afon**
- **Diagram - System afon gydag atebion**
- **Cardiau adnodd - Deall system afon**
- **Gofod agored er mwyn chwarae**

## Beth i'w wneud

Gellir cynnal y gweithgaredd mewn nifer o ffyrdd yn dibynnu ar allu a gwybodaeth flaenorol y grŵp. Un ai:

- Rhoi'r 'Cardiau adnodd - Deall system afon' i grwpiau bach ac yna caniatáu amser i baru'r enwau a'r disgrifiadau i'r nodweddion ar y 'Diagram – System afon'.
  NEU
- Ei chwarae fel gêm i dimau. Mae'r 'Diagram - System afon' gan bob grŵp. Wrth chwarae fel ras gyfnewid, mae'n rhaid i aelodau'r timau rasio i ddod o hyd i'r 'Cardiau adnodd - Deall system afon' sydd wedi cael eu gwasgaru ar y llawr yna gweithio fel tîm i labelu'r diagram yn gywir.

Trafodwch y gwahaniaethau y gallech eu gweld ym mhob rhan o'r afon a pham. Er enghraifft, ble fyddai rhan fwyaf llydan yr afon i'w gweld? A fyddai'r afon yn llifo'n gyflymach neu'n arafach yn y cwrs uchaf? Pam? A yw rhai ardaloedd yn fwy tueddol o orlifo a pham?

## Cwestiynau allweddol posibl

- **Beth yw'r term cywir am ddechrau a diwedd afon?**
- **Pa nodweddion fyddech chi'n debygol o'u gweld yn rhannau uchaf, canol ac isaf afon a pham?**

## Addasu ar gyfer anghenion/galluoedd gwahanol

### Llai abl

- Defnyddiwch y cardiau adnodd ar gyfer y nodweddion afon sy'n hawdd i'w hadnabod yn unig e.e. aber a rhaeadr.

### Mwy abl

- A oes nodweddion neu brosesau afon nad ydynt wedi cael eu rhestru? Gofynnwch i'ch dysgwyr dynnu llun diagramau ac ysgrifennu cardiau adnodd ar gyfer unrhyw nodweddion sydd ar goll e.e. sianel neu sbardunau pleth.

## Gweithgaredd dilynol/estynedig

- Arsylwch afon leol. Pa ran o'r afon yw hi a pha nodweddion sydd i'w gweld?
- Edrychwch ar lun o'r ardal o'r awyr, a gofynnwch i'r dysgwyr adnabod rhannau uchaf, canol ac isaf yr afon. Pa nodweddion fydden nhw'n disgwyl eu gweld ym mhob rhan?

## Gwybodaeth ychwanegol

**Gwefannau defnyddiol:**
http://www.bbc.co.uk/education/guides/zkrdmp3/revision
http://www.geography.learnontheinternet.co.uk/topics/longprofile.html

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government